




© NBN Atlas. Mae dotiau oren yn gofnodion a dderbynnir, nid yw dotiau pinc wedi'u cadarnhau.

Môr-wenoliaid

Pencampwr Rhywogaeth



Hannah Blythyn AS
Plaid: Llafur Cymru
Bro: Delyn

Mwy o wybodaeth

- https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/little-tern

Prif aelod

RSPB CYMRU

Disgrifiad a statws

Aderyn y môr yw'r môr-wennol fechan, a'r lleiaf o deulu'r môr-wenoliaid sy'n bridio yng Nghymru. Gyda chap du, streipen ar ei llygaid a phig melyn, mae môr-wenoliaid yn nythu mewn cytref ar draethau tywodlyd sydd â chefnen raeanog, ac yn hedfan hyd at 5km o'r arfordir i ddal pysgod bach o ychydig islaw wyneb y môr. Yn ystod y gaeaf, maent yn mudo i arfordir Gorllewin Affrica. Mae'n aderyn sydd ar y rhestr goch oherwydd gostyngiad yn y niferoedd ers y 1920au a gostyngiad yn y niferoedd o ran safleoedd bridio ers 1970. Erbyn 1989, dim ond un nythfa oedd ar ôl, a honno yng Ngronant yn Sir Ddinbych. Diolch i'r gwaith wardeinio sy'n digwydd yno ac mewn ail nythfa yn RSPB Y Parlwr Du yn Sir y Fflint, cynyddodd y niferoedd i 238 pâr yn 2023.

Bygythiadau

Mae poblogaeth y fôr-wennol fechan ym Mhrydain ac Iwerddon ar ei hisaf ers i'r gwaith monitro ddechrau tua 1970. Mae'r stori yng Nghymru yn fwy cadarnhaol: Gronant yw'r ail nythfa fwyaf ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae ail nythfa wedi'i sefydlu ers 2015, diolch i ymdrechion amddiffyn dwys, Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a chyfraddau goroesi uchel ymysg oedolion.
Mae'r ddwy nythfa'n cael eu cynnal diolch i ymdrechion dwys gan wardeiniaid a gwirfoddolwyr cymunedol, sy'n diogelu nythod a chywion rhag aflonyddwch.


Y risg fwyaf yw digwyddiad dirybudd yn effeithio ar y ddwy nythfa. Er mwyn lliniaru yn erbyn hynny, mae angen mynd ati ar frys i greu safleoedd bridio eraill y gellir eu gwarchod yn yr hirdymor. Mae môr-wenoliaid yn symud yn naturiol, ond os byddan nhw'n cefnu ar y ddwy nythfa, does ganddyn nhw ddim ail ddewis. Mae Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI) yn dangos y risgiau i rywogaethau adar y môr sy'n nythu; cynnydd yn lefel y môr a mwy o dywydd stormus sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cyfyngu'r traethau sy'n cael eu ffafrio ar hyn o bryd.

Gweithredu angenrheidiol

- Sicrhau cyllid ar gyfer parhau i warchod nythfeydd Môr-wenoliaid bychain.
- Cynhyrchu a gweithredu Strategaeth Cadwraeth Adar Môr Cymru a fydd yn gwarchod safleoedd presennol a ddefnyddir ar gyfer nythu a bwydo, gan gynnwys drwy gynllunio gofodol morol effeithiol.
- Creu safleoedd amgen addas ar gyfer yr holl rywogaethau Môr-wenoliaid sy'n bridio, sy'n addas ar gyfer y cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol.
- Rheoli ecosystemau a mesurau diogelu ar gyfer rhywogaethau ysglyfaeth Môr-wenoliaid bychain (fel llymrïaid), ynghyd â rhagor o ymchwil i benderfynu pa effaith y mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar y rhywogaethau hyn yng Nghymru.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2024 Cyswllt Amgylchedd Cymru





© NBN Atlas. Note: Orange dots are accepted records, pink dots are unconfirmed data.

Species Champion



Hannah Blythyn MS
Party: Welsh Labour
Region: Delyn

More information

- https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/little-tern

Lead members

Little Tern

Description and status

Little Tern is a seabird, the smallest of the tern family breeding in Wales. With a black cap and eye-stripe, and a yellow bill, they nest colonially on sandy beaches with shingle ridges, and fly up to 5km from the coast to catch small fish from just below the sea surface. In winter, they migrate to the coast of West Africa. It is a Red-listed bird because of a decline in numbers since the 1920s and of breeding sites since 1970. By 1989, just one colony remained, at Gronant in Denbighshire. Thanks to wardening there and at a second colony at RSPB Point of Ayr in Flintshire, numbers increased to 238 pairs in 2023.

Threats

Britain and Ireland's Little Tern population is at its lowest point since monitoring began around 1970. The story in Wales is more positive: Gronant is the second largest colony in Britain and Ireland, and a second colony has been established since 2015, thanks to intensive protection efforts, in the Liverpool Bay Special Protection Area. The two colonies are maintained thanks to intensive efforts by wardens and community volunteers, who protect nests and chicks from disturbance.

The biggest risk is a chance event affecting the two colonies. To mitigate against that there is an urgent need to create alternative breeding sites that can be protected in the longer-term. Terns are naturally mobile, but if they abandon the two colonies, they have no Plan B. Highly Pathogenic Avian Influenza illustrates the risks to colonial seabird species; sea-level rise and increased storminess associated with climate change threaten to squeeze the beaches currently favoured.

Actions required

- Secure funding for the continued protection of Little Tern colonies.
- Produce and implement a Wales Seabird Conservation Strategy that will protect existing sites used for nesting and feeding, including through effective marine spatial planning.
- Create suitable alternative sites for all breeding tern species that are future-proofed against sea-level rise.
- Ecosystem-based management and protective measures for Little Tern prey species (such as sandeel), coupled with further research to determine the impact climate change is having on these species in Wales.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2024 Wales Environment Link